

## Undeb Bedyddwyr Cymru - Araith y Llywydd, 24 Mehefin 2022

### ‘Y rhwymau sy’n ein clymu ni ynghyd’

Anrhydedd annisgwyl oedd cael fy enwebu ar gyfer llywyddiaeth Undeb Bedyddwyr Cymru mewn blwyddyn pan fo’r ddwy adain yn cynnal eu cynhadledd ar y cyd. Yn anaml iawn iawn mae hyn yn digwydd, a chan fy mod yn weddol anhysbys yn yr eglwysi di-Gymraeg, rwy’n rhyfeddu braidd at eu mentergarwch ac yn gwerthfawrogi’r ffydd mae’r ddwy adran wedi ei roi ynof. Gwnaf fy ngorau i beidio â siomi’r naill adran na’r llall.

Hanner canrif yn ôl, yn 1972, y cefais fy nerbyn yn ymgeisydd am y weinidogaeth gan Gymanfa Gorllewin Morgannwg, a minnau bryd hynny yn y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Pen-lan, Abertawe, wedi fy medyddio tair blynedd ynghynt gan fy ngweinidog, y Parchg R. G. Roberts, yn un o hanner dwsin o ieuenctid eglwys Calfaria Treforus. Gallai ddim honni bod pethau’r ffydd yn eglur i mi bryd hynny, ond roeddwn wedi cael fy magu’n Gristnogol a’m proffes, rwy’n credu, yn un ddiffuant. Os nad y cam dechreuol oedd hynny – y cam dechreuol oedd cael fy nwyn i’r capel ac i’r Ysgol Sul yn blentyn – roedd y bedydd yn gam allweddol ar y daith. Fedrai ddim llai na mynegi fy nyled i fy mam eglwys nôl yn chwedegau a saithdegau’r ganrif o’r blaen, ei gweinidog, ei swyddogion a’i hathrawon Ysgol Sul a oedd yn ymgeleddu’r ieuenctid yn eu plith. Roedd fy hen dad-cu, Daniel Jones y teiliwr, yn un o sylfaenwyr Calfaria yn 1888 ac yn arweinydd cyntaf y gân. Yno y bedyddiwyd fy mam-gu; yno bedyddiwyd fy mam, a phan ddaeth yr amser, yno y’r bedyddiwyd i. Dyma’r graig y’r naddwyd ohoni, a dyma’r etifeddiaeth sydd wedi bod yn gynhysgaeth i mi byth oddi ar hynny.

Fedrai ddim peidio â chrybwyll ychwaith y camau eraill ar y daith. Hyfforddi yn y Coleg Gwyn ym Mangor o dan gyfarwyddyd y Prifathro D. Eirwyn Morgan a’r Athro George John, a phrofi o felyster cyfeillgarwch cyd-fyfyrwyr sydd wedi para hyd heddiw. Tair blynedd wedyn yng Ngholeg Regent’s Park, Rhydychen, yn gwneud gwaith ymchwil ar Fedyddwyr Cymru’r ddeunawfed ganrif, a’m cadarnhau yn yr uchel sagrafennaeth Fedyddiedig roedd Eirwyn Morgan – yntau’n gynnyrch Coleg Regent’s Park – eisoes wedi ei chyflwyno i ni ym Mangor. Yna chwe blynedd hynod gyfoethog ar y Mynydd Mawr, Sir Gâr, yn weinidog ar Galfaria Pen-y-groes, Tabor Crosshands a Phenrhiwgoch, cyn symud i’r Gogledd yn 1988 i ddysgu Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor. Rwyf am ddiolch i eglwysi Moreia, y Gaerwen, a Phencarneddi, y ddwy ym Môn, am fy ngalw yn weinidog rhan-amser rhwng 1989 ac 1994, ac yna i’r Coleg Gwyn am fy mhenodi yn 1996 yn Warden (a minnau’n parhau i ddysgu yn y Brifysgol) ac yn olynnydd i’r pennaeth, fy nghyfaill y Parchg John Rice Rowlands. Rhaid

crybwyll yn ogystal y gymdeithas ardderchog ym Menuel Bangor, ei gweinidog, fy hen gyfaill Olaf Davies, a'r eglwys gyfan, lle roeddwn yn aelod rhwng 1995 a 2011, ac Ann, fy ngwraig, yn ddiakon ac yn ysgrifennydd yno; ac wrth gwrs Noddfa Llanbedr Pont Steffan, a'i gweinidog y Parchg Jill Tomos, lle ymaelododd Ann a finnau wedi i mi symud nôl i'r De i fod yn Athro Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Ac yna, i gloi, i Gylch Eglwysi Gogledd Teifi: Noddfa Llambod, Bethel Silian a Chaersalem Parc-y-rhos; Aberduar, Seion Cwrtnewydd a Brynhafod, am fy ngalw bedair blynedd yn ôl i'w bugeilio yn yr Arglwydd. Dwy adnod oedd yn pwysu ar fy meddwl wrth dderbyn yr alwad honno: 'Ni bûm anufudd i'r weledigaeth nefol' (Actau 26:19) yn un, a 'Gweision anfuiddiol ydym' (Luc 17:10) oedd y llall. Ac yno rwyn parhau hyd y dydd hwn, yn weinidog cefn gwlad, ac yno, i bob golwg, y byddaf yn aros.

Beth yw'r rhwymau sy'n ein clymu ni, aelodau Undeb Bedyddwyr Cymru, ynghyd? Wrth baratoi ar gyfer yr anerchiad hwn, dyna'r cwestiwn sydd wedi bod yn cynywair yn fy meddwl, ac er mwyn cynnig ateb, rwyf am dynnu'ch sylw at y 'Datganiad o Egwyddor' sy'n sylfaen i'n gweithgareddau fel Undeb. Petaech yn troi at y wefan, a phwyso ar y geiriau 'Yr hyn a gredwn', byddwch yn dod o hyd i'r tri chymal hwn:

1. Ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist, Duw a amlygwyd yn y cnawd, yw'n hunig awdurdod llwyr a hollol ym mhob mater sy'n ymwneud â ffydd ac ymarfer, fel y'i mynegwyd yn yr Ysgrhythrau Sanctaidd, ac mae gan bob eglwys ryddid i ddehongli ac i weinyddu ei gyfreithiau dan arweiniad yr Ysbryd Glân.
2. Bedydd Cristnogol yw'r weithred o drochi mewn dŵr y sawl sydd wedi datgan edifeirwch ger bron Duw a ffydd yn ein Harglwydd Iesu Grist a fu farw dros ein pechodau yn ôl yr Ysgrhythrau, a gladdwyd ac a atgyfodwyd y trydydd dydd.
3. Dyletswydd pob disgybl yw tystio'n bersonol i efengyl Iesu Grist ac i gymryd rhan mewn efengyleiddio'r byd.

Beth wnewch chi o hynny? Ydi hi'n gyffes ffydd? Ydi hi'n gredo?, ac ydi hi'n ddigonol i'n clymu ni, sy'n perthyn i'r Undeb hwn, yn un corff o ddisgyblion sy'n proffesu ffydd yn yr Arglwydd Iesu ac ymrwymiad i'w achos yn y Gymru hon? Dyna rwyf am ei drafod o dan y pennawd 'Y rhwymau sy'n ein clymu ni ynghyd'.

### **1. Y cefndir hanesyddol**

Sefydlwyd Undeb Bedyddwyr Cymru yn Llanwenarth, nid nepell o'r Fenni, yn 1866, ac ymhen y flwyddyn mabwysiadwyd y cyfansoddiad cyntaf a oedd yn cydnabod sofraniaeth pob eglwys unigol a'i hawl 'i osod mewn grym holl ddeddfau Crist er ei hadaeladaeth hi ei hun'. Ymhlith

dibenion yr Undeb oedd ‘diogelu cariad ac unoliaeth rhwng gweinidogion ac eglwysi Bedyddwyr sy’n proffesu eu hunain yn Galfinaidd neu efengylaidd’, sef yw, trwch eglwysi’r enwad ar y pryd. Nid pob eglwys na phob cymanfa a fynnodd ymuno – onid oedd y cymanfaoedd sirol yn ddigon i fedru mynegi undod yr enwad? – ond fesul tipyn: Cymanfa Brycheiniog yn 1874, Cymanfa Mynwy yn 1879, Cymanfa Morgannwg (a oedd yn un gymanfa ar y pryd) yn 1880, a’r olaf ohonynt, sef Cymanfa Penfro, yn 1881, ymunodd bob un o’r cymanfaoedd â’r Undeb, gyda’r eglwysi cyfrwng Saesneg yn y canolbarth a chymoedd y dwyrain, yn ffurfio’r Adran ddi-Gymraeg yn 1913. Af fi ddim i fanylu ar y stori, ac os hoffwch wybod mwy trowch at bennod gyfoethog y diweddar Mr Gareth O. Watts yn y gyfrol *Y Fywiol Ffrwd* (1999) neu bennod olau y Parchg Michael Collis yn y gyfrol *Unity of Spirit and Bond of Peace: A Summary of the History of the Baptist Union of Wales* (2016). Am yr hanner canrif a mwy nesaf aeth y gwaith ymlaen yn ddidrafferth, ac nid tan 1977, er mwyn cadarnhau sylfaen cyfansoddiadol yr Undeb, y mabwysiadwyd y ‘Datganiad o Egwyddor’ yn ôl y geiriad a oedd wedi eu harfer gan Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr ac Iwerddon ers 1938.<sup>1</sup> O ran ein Hundeb ni felly, roedd hi mor ddiweddar â 1977 pan ddaeth y tri chymal sy’n sôn yn benodol am Berson yr Arglwydd Iesu, rhyddid yr eglwys leol o dan y Gair, natur bedydd crediniol a phwysigrwydd canolog cenhadu, yn rhan ymwybodol o’n tystiolaeth, a’r cwestiwn yw: beth wnawn ni ohonynt? Ai digonol y rhain fel rhwymau i’n clymu ynghyd?

Petaech yn cymharu’r Datganiad â Chredo’r Apostolion, er enghraifft, y mwyaf cyffredin o symbolau catholig yr eglwys ar hyd y canrifoedd, fe welwch fod ynddo fylchau mawr. Does dim sôn am gredu yn Nuw Dad hollalluog, creawdwr nefoedd a daear; dim sôn am Iesu yn cael ei genhedlu trwy yr Ysbryd Glân na’i eni o Fair Forwyn; does dim sôn amdano yn dioddef dan Pontius Pilat, yn disgyn i blith y meirw nac yn esgyn fry i’r nefoedd, a dim oll am gymundeb y saint, atgyfodiad y corff a’r bywyd tragwyddol, a phetaech yn ei gymharu â Chyffes Ffydd 1689, byddwch yn cael eich teimtio i ddweud ei fod yn denau rhyfeddol. Am ganrifoedd bu Cyffes Ffydd 1689 yn gwbl gyfarwydd i’n cyndadau, rhwng y cyfiethiad cyntaf gan David Rees Hengoed yn 1721, fersiwn ysblennydd Joshua Thomas yn 1791, y mynych argraffiadau ar hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at y fersiwn mwyaf diweddar a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Hanes yn 1989. Dyma’r Gyffes a ddisgrifiwyd gan yr Athro Syr Glanmor Williams, prif hanesydd Cymru ac un o’n lleygwyr mwyaf ymroddedig:

---

<sup>1</sup> Am hanes a chyn-hanes y Datganiad, gweler Richard L. Kidd (gol.), *Something to Declare: A Study of the Declaration of Principle* (Oxford: Whitley Publications, 1996).

Y mae iddi arwyddocâd nodedig ... i'n cenhedlaeth ni ... gan ei bod yn gosod o'n blaenau mewn trefn ac mewn dull cryno a phendant brif bynciau'r ffydd Gristnogol fel y'i coledir hi gan ein henwad o hyd.<sup>2</sup>

Wel, mae'r Datganiad yn denau ryfeddol o'i gymharu â'r gyffes fawreddog hon. Gwrandewch ar sylwadau Neville Clark, cyn-brifathro Coleg Caerdydd ac un o'r diwinyddion mwyaf sylweddol a gafodd Bedyddwyr Prydain trwy gydol y ganrif o'r blaen. Soniodd ef am 'the odd selectiveness and strange silences' sy'n nodweddu'r Datganiad, ac am y bylchau rhyfeddol ynddo, 'hardly a conventional model of credal comprehensiveness', meddai: 'Any half skilled defender of doctrinal orthodoxies could drive a coach and horses through it with one hand tied behind the back'!<sup>3</sup> Ai digonol hwn fel y rhwymyn sy'n ein clymu ni ynghyd? Yr hyn yr hoffwn ei amgrymu am weddill yr araith hon yw nid yn unig *ei fod* yn ddigonol ond ei fod yn cyfuno eglurder, rhyddid a phwrrpas i'r graddau sy'n gweddu â'r dasg mae'r Arglwydd Iesu wedi'n galw iddi yng nghyd-destun y Gymru gynyddol seciwlaraid hon.

## 2. Yr Arglwydd sy'n ein clymu ni ynghyd

Sylwch beth sy'n dod gyntaf: bedydd? Nage! Cenhadu? Nage! Yr hyn sy'n dod gyntaf, bob amser ac ar bob achlysur, yw yr Arglwydd Iesu Grist:

Ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist, Duw a amlygwyd yn y cnawd, yw'n hunig awdurdod llwyr a hollol ym mhob mater sy'n ymwneud â ffydd ac ymarfer, fel y'i mynegwyd yn yr Ysgrythurau Sanctaidd.

Pwy yw'r Iesu hwn? Yr un sy'n Arglwydd a Gwaredwr, a'r un sy'n Arglwydd a Gwaredwr *i ni*. Nid proffwyd, nid dyn da, nid yr esiampl fwyaf perffaith o'r hyn sy'n ddyrchafol a rhinweddol yn y natur ddynol ond 'Duw a amlygwyd yn y cnawd'. Ar hyd y canrifoedd mae'r Eglwys wedi mynnu fod duwdod yn perthyn i'r Iesu hwn: 'Hwn yw'r un a benododd Duw yn etifedd pob peth a'r un y gwnaeth y bydysawd drwyddo. Ef yw disgleirdeb gogoniant Duw ac y mae stamp ei sylwedd arno' (Heb. 1:2-3); 'Ef yw'r un y gwelodd Duw yn dda i'w holl gyflawnder breswyllo ynddo' medd Paul (Col. 1:19), ac eto, 'ynddo ef mae holl gyflawnder y duwdod yn preswyllo'n gorfforol' (Col. 2:9); ac ef, yn ôl Efengyl Ioan, yw'r 'Gair a ddaeth yn gnawd a phreswyllo yn ein plith yn llawn gras a gwirionedd', yr un 'y gwelsom ei ogoniant ef fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad' (Ioan 1: 14), neu yn ôl cyffes Thomas, ar ôl yr atgyfodiad, 'Fy Arglwydd a'm Duw' (Ioan 20:28).

---

<sup>2</sup> Glanmor Williams, 'Cyffes Ffydd y Bedyddwyr', *Seren Cymru*, 17 Chwefror 1989.

<sup>3</sup> Neville Clark, *Invitation to a Conversation: 10 Belonging and Believing* (Cardiff: South Wales Baptist College, 1997), t. 11.

Dyw duwdod Iesu ddim am eiliad yn gorchuddio'i ddyndod, ei dosturi, ei gydymdeimlad, ei weinidogaeth achubol ymhlith gwerin Galilea pan ddatganodd ddyfodiad y deyrnas a mynd o gwmpas 'gan wneuthur daioni'; cnauld o'n cnauld ni ydyw, asgwrn o'n hasgwrn ni:

Mae'n ddyn i gydymdeimlo â'n holl wendidau i gyd  
Mae'n Dduw i gario'r orsedd ar ddiabol, cnauld a byd

Ac ef, y Duw-ddyn, Crist yr ymgawdoliad yw'r Arglwydd sy'n ein clymu ni, Fedyddwyr Cymru, ynghyd.

Ble down ni o hyd i awdurdod yn ein crefydd? Nid mewn llyfr noeth, nid yn llythyren y Beibl fel y cyfryw, ond mewn Person, y Person mae'r Beibl yn dwyn ei dystiolaeth unigryw iddo, proffwydi'r Hen Destament yn cyfeirio ymlaen ato ac apostolion y Testament Newydd yn tystio i'w ddyfodiad, ei weithredoedd, ei natur ddibechod, ei aberth a'i atgyfodiad. 'Y Beibl', medd Luther, 'yw'r crud lle mae Crist yr Arglwydd wedi ei osod i orwedd', ac ef, yn ôl y Datganiad hwn, 'yw'n hunig awdurdod llwyr a hollol ym mhob mater sy'n ymwneud â ffydd ac ymarfer, fel y'i mynegwyd yn yr Ysgrythurau Sanctaidd'.

Ac yna mae'r Datganiad yn symud ymlaen at yr eglwys: 'mae gan bob eglwys ryddid i ddehongli ac i weinyddu ei gyfreithiau dan arweiniad yr Ysbryd Glân'. I ni, yr eglwys yw'r eglwys leol, cymdeithas y saint, brodyr a chwiorydd yng Nghrist sy'n dod ynghyd Sul ar ôl Sul i wrando Gair Duw ac i ymgynull o gwmpas Bwrdd yr Arglwydd. Ac mae'r eglwys honno yn rhydd! Gall neb oruwchlywodraethu drosti, boed esgob, boed gymanfa ac yn sicr nid Cyngor yr Undeb! Ond nid penryddid mo'r rhyddid hwn, ond rhyddid o dan y Gair, sef Iesu Grist ei hun, ac yna daw'r cyfeiriad cyntaf at yr Ysbryd Glân: 'mae gan bob eglwys ryddid i ddehongli ac i weinyddu ei gyfreithiau *dan arweiniad yr Ysbryd Glân*'. Nid dylanwad amhersonol, disylwedd, anelwig mo'r Ysbryd Glân ond trydydd Person y Drindod Sanctaidd, yn deillio oddi wrth y Tad, yn dwyn ei dystiolaeth i'r Mab ac ar waith ynom yn ein harwain, ein sancteiddio ac yn selio cariad Duw yn ein calonau. Nid yn unig mae'r Datganiad hwn yn Grist-ganolog, mae'n ddatganiad Trindodaidd yn ogystal.

A minnau wedi bod yn weinidog ers deugain mlynedd, gwn yn iawn fod amrywiaeth eang o safbwyntiau a rychwant lliwgar o ddehongliadau gwahanol ar gael yn ein heglwysi, ac o'm rhan fy hun rwyn falch o hynny. Hoffwn i ddim perthyn i enwad sy'n disgwyl i bawb feddwl yr un peth ac ymagweddu yr peth a lle nad oes rhyddid i'w aelodau fynegi gwahaniaeth barn yn ddiffuant ac yn onest. Ac mae'r Datganiad yn caniatáu y rhyddid hwnnw i ni. Mae rhai o'r dehongliadau hyn yn adlewyrchu'r cymhlethdod moesol sy'n nodweddu diwylliant y Gymru gyfoes, a sensitifrwydd pobl i hynny, ond cyhyd â'u bod yn ffrwyth ystryriaeth

gydwybodol dan arweiniad yr Ysbryd, ni ddylai'r amrywiaeth hon dorri ar draws ein hundod yng Nghrist. Dylai bod modd i ni felly 'gadw, â rhwymyn tangnefedd, yr undod y mae'r Ysbryd yn ei roi' (Eff. 4:3) gan fawrygu yn briodol yr Arglwydd sy'n ein clymu ni ynghyd.

### 3. Y bedydd sy'n ein clymu ni ynghyd

A ninnau wedi dechrau gyda Christ a rhyddid pob eglwys i ddehongli ei ddeddfau dan arweiniad yr Ysbryd Glan, dim yn nawr y daw'r Datganiad at yr hyn mae llawer yn eu hystyried yn nod amgen ein traddodiad, sef bedydd:

Bedydd Cristnogol yw'r weithred o drochi mewn dŵr y sawl sydd wedi datgan edifeirwch ger bron Duw a ffydd yn ein Harglwydd Iesu Grist a fu farw dros ein pechodau yn ôl yr Ysgrythurau, a gladdwyd ac a atgyfodwyd y trydydd dydd.

Beth a barodd i lunwyr y Datganiad osod y cymal hwn yn yr ail safle ac nid ar y dechrau? Ai camsyniad oedd hyn, ynteu fwriad? Hoffwn feddwl fod y peth yn hollol fwriadol ac yn adlewyrchu'r deinamig sydd yn yr efengyl. Crist ei hun sy'n dod gyntaf a dim ond wedyn ein hymateb iddo, ac mae'r ymateb hwnnw yn cael ei ffurfio gan ein hymwneud â'r eglwys y cawsom ein magu ynddi neu y daethom i uniaethu ein hunain â hi wrth ymuno â'i chymdeithas. Yr un a gyfleodd hyn orau oedd Neville Clark, diweddar brifathro Coleg Caerdydd:

Each Christian community was committed to look steadily at the incarnate Christ carried by scripture, bow to his unchallengeable authority to determine its faith, and practice liberty of discernment in the Lord.

A'r llwybr i mewn i fywyd yr eglwys hon, ble bynnag ydyw, yw'r bedydd:

It was by taking the baptismal road that you were directed face to face with Trinitarian belief.<sup>4</sup>

Fel y dywedais ar y dechrau, prin y gwyddai crwt amrwd pymtheg oed yng Nghalfaria Treforus yng nghanol chwedegau'r ganrif o'r blaen ddim o'r pethau hyn! Os oedd gen i ddiwinyddiaeth o gwbl, diwinyddiaeth yr Ysgol Sul oedd honno:

Byw fel Iesu, dilyn Iesu, ydyw cri fy nghalon wan  
Dweud fel Iesu, gwneud fel Iesu, yw fy nefoedd ym mhob man.<sup>5</sup>

Dim ond wedyn, wrth i ddealltwriaeth ehangu, wrth i ffydd dyfu ac wrth i edifeirwch ddwysau a hynny yng nghwmni fy nghyd-Gristnogion a ddaeth yn gyfeillion i mi ar y daith, y deuthum

---

<sup>4</sup> Clark, *Invitation to a Conversation: 10 Belonging and Believing*, t. 12.

<sup>5</sup> Emyr Fred Morgan (1862-1933), gweinidog cyntaf Soar Treforus, y byddwn ni'n ei ganu'n aml yn y cwrdd plant a'r Ysgol Sul, gw. *Y Llawlyfr Moliant Newydd* (1952), rhif 791.

i werthfawrogi ystyr y gyffes roeddwn wedi ei gwneud gerbron Duw a'm cyd-aelodau a minnau'n bymtheg oed; dim ond wedyn y sylweddolais y cyfoeth roedd bedydd y Testament Newydd yn arwydd mor bwerus ohono:

Trwy'r bedydd hwn i farwolaeth, fe'n claddwyd gydag ef, fel, megis y cyfodwyd Crist oddi wrth y meirw mewn amlygiad o ogoniant y Tad, y byddai i ninnau gael byw ar wastad bywyd newydd. (Rhuf 6:3-4)

Ac eto:

Canys mewn un Ysbryd y cawsom i gyd ein bedyddio i un corff ... Yn awr, chwi yw corff Crist, ac y mae i bob un ohonoch ei le fel aelod. (1 Cor. 12: 13a, 27)

Un cam ar y daith yw bedydd, cam allweddol ie, a cham angenrheidiol, ond nid, yn bendifaddau, y cam olaf. Dyna'r bedydd sy'n ein clymu ynghyd.

#### **4. Y genhadaeth sy'n ein clymu ni ynghyd**

Dyletswydd pob disgybl yw tystio'n bersonol i efengyl Iesu Grist ac i gymryd rhan mewn efengyleiddio'r byd.

Ar un wedd nid fi yw'r un gorau i sôn am genhadu ac efengylu. Deuthum i sylweddoli flynyddoedd yn ôl mai dawn yr athro a'r dysgawdwr sy gen i ac efallai dawn y pregethwr a'r bugail, ond nid dawn y cenhadwr a'r efengilydd. Ond 'gwna waith efengylwr' (2 Tim 4:5) medd yr Apostol Paul wrth ei gyfaill ifanc Timotheus, ac mae hyn yn rwymedigaeth arnom i gyd. Efallai bod sawr oes arall ar union eiriad y cymal a rhyw unigolyddiaeth sy'n ddiethr i ni, 'tystio'n bersonol i efengyl Iesu Grist a chymryd rhan mewn efengyleiddio'r byd', ond mae i ystyr yn fwy perthnasol i fywyd y Gymru seciwlaraid, bliwralaid, ôl-Gristnogol hon nag erioed. A chofiwch eto am ddeinameg yr efengyl sy'n cael ei hadlewyrchu yn y Datganiad: trwy ddrws y bedydd y down at y Crist byw yng nghymdeithas ei bobl, ac wedi hir syllu arno a'n cyfareddu ganddo ni allwn lai na rhannu gyda'r byd yr hyn a brofasom. Yn ôl un o'n diwinyddion Bedyddiedig mwy cyfoes:

By Christ, in the Spirit, we come to the Father. We are baptized into the life of the triune God and live to share God's mission in the world.<sup>6</sup>

Ein galw, felly, i rannu cenhadaeth Duw yn y byd.

Beth yw ystyr hynny yn y Gymru hon? Ein gwaith ni, wrth adael y gynhadledd a dychwelyd at ein hardaloedd, ein trefi a'n pentrefi yng nghymoedd y dwyrain, yn siroedd y

---

<sup>6</sup> Kidd (gol.), *Something to Declare: A Study of the Declaration of Principle*, t. 25.

gogledd, yma yn y gorllewin, ym maestrefi a dinasoedd y Gymru newydd, yw perswadio pobl. ‘Felly’, medd yr Apostol Paul yn ei Ail Lythyr at y Corinthiaid, ‘o wybod beth yw ofn yr Arglwydd, yr ydym yn perswadio pobl’ (2 Cor. 5:11). Eu perswadio o beth? O’r ffaith fod Duw yn ei gariad anrhaethol wedi dod atom yn ei Fab, nid er mwyn ein barnu, ein condemnio ni na’n difa ni, ond er mwyn ein cofleidio ni, ein codi a chynnig i ni, a phawb arall, fywyd newydd:

O’r fath newid ryfeddol a wnaed ynof fi/ Daeth Iesu i’m calon i fyw

‘Oherwydd y mae cariad Crist yn ein gorfodi ni, a ninnau wedi ein hargyhoeddi o hyn: i un farw dros bawb, ac felly i bawb farw. A hynny i’r byw beidio â byw iddynt eu hunain mwyach, ond i’r un a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd’ (2 Cor. 5:14-15). Fel yna y gallwn chwarae ein rhan mewn efengyleiddio’r byd, a dyna hanfod y genhadaeth sydd yn ein clymu ni, Fedyddwyr Cymru, ynghyd:

Felly, os oes neb yng Nghrist, y mae’n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae’r newydd yma. Ond gwaith Duw yw’r cyfan ... Yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi’r byd ag ef ei hun, heb gyfrif eu troseddau yn eu herbyn, ac y mae wedi ymddiried *i ni* neges y cymod. Felly cenhadon dros Grist ydym ni, fel pe bai Duw yn apelio atoch trwom ni ... cymoder chwi â Duw (2 Cor 5:17-21).

Yr Arglwydd sy’n ein clymu ni ynghyd; y bedydd sydd yn ein clymu ni ynghyd; y genhadaeth sy’n ein clymu ni ynghyd. Rhoddod yr Arglwydd ras i ni beidio â bod yn anufudd i’r alwedigaeth nefol. AMEN.

*Densil Morgan, Mehefin 2022*

Rhai cyfeiriadau ychwanegol:

Richard Edwards, ‘Hanes Undeb Bedyddwyr Cymru, 1886-1937’, rhan 1, *Trafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr* 1937, 1-53; rhan 2, *Trafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr* 1938, 40-92.

Thomas Richards, ‘Trefn a Chredo’ (araith y Llywydd, Undeb Bangor, 1958), *Seren Gomer* XLX/3 (1958), 74-99.